# Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-04-08 (p2): 13 Mawrth 2008**

## Themâu sy'n codi o ymchwiliad yr Is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ystyried gwybodaeth gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ar themâu sy'n codi o ymchwiliad yr Is-bwyllgor i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig.

### Cefndir

2.Yn ei gyfarfod ddydd Iau, 6 Mawrth, cytunodd yr Is-bwyllgor ystyried papur ar themâu sy'n codi o'i ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig, yn ei gyfarfod nesaf ar 13 Mawrth.

3.Yr oedd yr ymgynghoriad ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad yn cau ddydd Gwener 7 Mawrth a hyd yma, mae'r Is-bwyllgor wedi cynnal tair sesiwn dystiolaeth lafar oedd yn cynnwys y sefydliadau canlynol:

Arsyllfa Wledig Cymru
Y Comisiwn dros Gymunedau Gwledig
Uned Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Barnardo's Cymru
NCH Cymru
Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Funky Dragon
Plant yng Nghymru

4.Mae papur ar themâu sy'n codi o'r ymchwiliad ynghlwm fel Atodiad A.

### Argymhelliad

5.Gwahoddir aelodau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i ystyried y papur ar themâu sy'n codi o'r ymchwiliad i dlodi ac amddifadedd yng Nghymru wledig.

Y Gwasanaeth Pwyllgorau
Mawrth 2008